OWEN, JOHN (1788 - 1867), clerigwr ac awdur

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1788
Dyddiad marw: 1867
Rhiant: Elinor Owen
Rhiant: Owen Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Daniel Williams

Ganwyd yn 1788 yn fab Owen ac Elinor Owen, Cilirwysg, Llanfihangel Ystrad, Sir Aberteifi - y rhieni yn aelodau gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cymerth dau o'r meibion urddau eglwysig (sef John a David Owen). Aeth John i ysgol Ystrad Meurig, i'w addysgu gan John Williams ('Yr hen Syr'). Ordeiniwyd ef yn Llanelwy gan yr esgob Cleaver; diacon 1811, offeiriad 1812. Bu'n gurad i ddechrau yn Hirnant 1811-3. Oddi yno aeth i S. Martin, Leicester. Wedi hynny bu'n gurad yn Thrussington, yn yr un sir, a'i benodi yn ficer yno yn 1845, a deon gwlad yn 1853. Yno bellach yr arhosodd hyd ei gladdu ar 31 Gorffennaf 1867. Ysgrifennodd *Coffhad am Daniel Rowlands Llangeitho*, 1839; *A Memoir of Daniel Rowlands*, 1840; *Memoir of Thomas Jones of Creaton*, 1851; a llyfrau eraill.

Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

Ffynonellau

Yr Haul, 1842, 195

Crockford's Clerical Directory

Benjamin Williams (Gwynionydd), *Enwogion Ceredigion* (1869)

Edward Morgan, *Ministerial records: or Brief accounts of the great progress of religion, under the ministry of those eminent, learned, and pious ministers of God, the Rev. D. Rowlands, of Llangeitho, the Rev. W. Williams, of Pant-y-Celin, the Rev. D. Jones, of Llangan* (London 1840)

Y Geninen, 1897, 35

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 52777293

Wikidata: Q20733588

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu